# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

## 25 o Fedi, 2026

**TEITL:** Adroddiad Blynyddol 2025/26

**AWDUR:** Alwen Williams, Prif Weithredwr

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/2026.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae’r adroddiad yn adrodd ar y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a’i gyfrifoldebau gan gynnwys Trafnidiaeth Strategol, Cynllunio Strategol, Lles Economaidd sy’n cynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, a ffrydiau ariannu eraill megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac Ynni Strategol.

4.2. Mae’r adroddiad yn rhoi trosolwg o’r cynnydd sydd wedi ei wneud ar Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Yn y flwyddyn lle trosglwyddwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio, y Cynllun Twf a’r Bartneriaeth Sgiliau i mewn i’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, cyflawnwyd nifer o gerrig milltir:

- Penodwyd ein Prif Weithredwr llawn amser cyntaf, ynghyd a Chyfarwyddwr Portffolio.
- Penodwyd Ymgynghorwyr Anweithredol i gryfhau y cysylltedd rhwng y sector breifat, gan ddarparu llais annibynnol a her adeiladol.
- Penodwyd swyddogion arweiniol Trafnidiaeth a Chynllunio i yrru ymlaen ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a’n Cynllun Datblygu Strategol.
- Parhad i’r cytundeb gyda Cyngor Gwynedd i ddarparu ystod o wasanaethau cefnogol i’r Cyd-Bwyllgor.
- Recriwtio swyddogion allweddol ar gyfer gyrru ymlaen y gwaith gweithredol a chyflawni rhaglenni.
- Sefydlu pwyllgorau newydd.
- Cyflawni a chyflwyno ein adolygiad Cydymffurfiaeth Safonau’r Gymraeg.
- Cyflwynwyd ein adroddiad Dyletswydd Partneriaethau Cymdeithasol cyntaf ar gyfer 2024/25.

4.3. O fewn yr adroddiad mae gwybodaeth am y cynnydd a wnaed ar y dyletswyddau statudol, sef Trafnidiaeth a Chynllunio Rhanbarthol:

- Cwblhawyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn mis Ebrill 2025.
- Cymeradwywyd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gan y Cyd-Bwyllgor yn mis Gorffennaf ac yna daeth yn bolisi yn dilyn ei gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn mis Medi.
- Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Cynllun Cyflawni sy'n nodi'r cynlluniau y gellid eu cyflawni yng Ngogledd Cymru os bydd cyllid ar gael. Gweithiodd Uchelgais Gogledd Cymru yn agos gyda'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth i flaenoriaethu pa rai o'r cynlluniau hyn i'w hariannu drwy gyllid Trafnidiaeth Rhanbarthol yn 2026/27.
- Cychwynnodd gwaith ar Gytundeb Cyflawni y Cynllun Datblygu Strategol yn Ebrill 2025, gyda dogfen ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2025. Yn dilyn ystyried yr adborth, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Cytundeb Cyflawni drafft ym mis Medi 2025 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

4.4. Am y tro cyntaf rydym yn adrodd o fewn ein adroddiad blynyddol ar Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam:

- Lansiwyd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn swyddogol yn ystod y flwyddyn.
- Cymeradwywyd Strategaeth Sgiliau y Parth Buddsoddi gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol.
- Dyrannwyd £12m o gyllid sgiliau cychwynnol ar gyfer Prifysgol Wrecsam ac Coleg Cambria dros gyfnod o bum mlynedd.
- Lansiwyd rhaglen Grantiau Busnesau Bach gan Gynghorau Sir y Fflint ac Wrecsam.
- Mae gwaith ar y gweill efo Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu achosion busnes ar gyfer nifer o brosiectau rheilffordd a bws.
- Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol y Parth Buddsoddi ar gyfer cael trosolwg o gyflawni a chynnydd.

4.5. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf a'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni'r prosiectau ynghyd â cherrig milltir allweddol eraill sydd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- 7 prosiect bellach yn weithredol, gyda 10 prosiect pellach wedi ei cymeradwyo a chyllid wedi neilltuo, a'r gwaith o symud yn nes at gyflawni yn parhau.
- Hyd yma mae'r cynllun twf wedi creu 121 o swyddi, sy'n cynnwys 63 o swyddi newydd ac 58 o swyddi adeiladwaith.
- Mae'r Cynllun Twf wedi cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o £34.21m yn economi Gogledd Cymru.
- Rydym yn falch o adrodd fod 86% o gaffael ar gyfer prosiectau y Cynllun Twf wedi ei roi i gwmnïau sydd wedi lleoli yng Ngogledd Cymru, ac 79% o'r contractau wedi eu rhoi i gyflenwyr sydd wedi'u cofrestru / eu cydnabod fel busnesau bach a chanolig (SME).

4.6. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol wedi parhau i chwarae rhan allweddol wrh gefnogi gwaith ar draws Uchelgais Gogledd Cymru.

- Cefnogodd y bartneriaeth sgiliau ddatblygiad y Cynllun Twf drwy gynllunio'r gweithlu, gwybodaeth am y farchnad lafur ac ymgysylltu gyda noddwyr prosiectau.
- Cefnogodd y tîm ar y cynllunio sgiliau ar gyfer cyfleoedd yn y rhanbarth.
- Mae'r Bartneriaeth wedi gweithio'n agos efo cyflogwyr i gael mynediad ar gefnogaeth sgiliau, hysbysu darpariaeth hyfforddiant a datblygu'r gweithlu sydd ei angen ar gyfer twf a chynhyrchiant.
- Datblygiad parhaus y Porth Sgiliau.

4.7. Parhawyd gyda'r gwaith ynni strategol gan lansio Hwb Cymorth Ynni Gogledd Cymru, datblygiad dashfwrdd ynni, mapio prosiectau ynni adnewyddol a datgarboneiddio, a chynhyrchu prosbectws ynni strategol.

4.8. Cyflawnwyd a chwblhawyd y prosiectau ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyddiannus, gyda un o'r uchafbwyntiau yn cynnwys cynnal gweithdai marchnad lafur ar gyfer 70 o bobl ifanc, cefnogi 16 o ffermydd i dreialu'r dechnoleg digidol ddiweddaraf, ac cefnogi 7 o sefydliadau efo astudiaethau dichonoldeb i'w prosiectau ynni a datgarboneiddio.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

**6.1.** Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Adroddiad Blynyddol 2025/26 |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

"Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi cyfle bwysig i'r CBC ddangos tryloywder ac atebolrwydd wrth gyflawni ei swyddogaethau ac i adrodd yn gyhoeddus ar ei weithgareddau a'i gyflawniadau yn ystod 2025/26.

Yn dilyn ei gymeradwyaeth, dylid gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

“Mae’r adroddiad yn crynhoi yr holl ystod o weithgareddau a ymgymerwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod 2025/26 a nid yw’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd.”